COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, RHIW ROAD, BAE COLWYN, NOS LUN, 28AIN TACHWEDD 2011 AM 6.30 p.m.

YN BRESENNOL: Y Maer, Y Cynghorydd Mrs M. Edwards
Y Cynghorwyr W. Bagnall; B. Cossey; Mrs L.V. Danson MBE; J. Davies; Mrs E. Edwards; Mrs J. Geddes; G. Jones; A. Khan; Mrs L. Lyon; Mrs H. Meredith; Mrs V. Perry; D. Porter; P. Richards; Mrs A. Robinson BEM; Mrs S. Roy; Mrs V. Smith

SWYDDOG YN BRESENNOL: Mrs C. J. Earley (Clerc)
HEFYD YN BRESENNOL: Mr Ian Verburg, Arolygydd Dosbarth, Heddlu Gogledd Cymru
Y wasg a'r cyhoedd

344/11 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:
Penderfynwyd derbyn yr ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr P. Edwards; Mrs J. Griffiths; C. Hughes; C. Perry

345/11 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD:

Fe atgoffwyd yr Aelodau o'r angen iddynt ddatgan bodolaeth a natur unrhyw gysylltiadau personol ac / neu fanteisiol. Datganwyd y cysylltiadau canlynol; - Cynghorydd B. Cossey cysylltiad heb fod yn fanteisiol yn eitem 7(b)(ii)and (iii) ar yr agenda mewn perthynas â grantiau bach ag ymholiad am logi ystafell - Cynghorydd W. Bagnall cysylltiad heb fod yn fanteisiol yn eitem 8 ar yr agenda, fel cyfranddaliwr bach yng Nghlwb Pêl-droed Bae Colwyn.

346/11 YMWELYDD A'R CYNGOR:

Croesawyd Ian Verburg, Arolygydd Dosbarth i Ddosbarth Arfordir Conwy, Heddlu Gogledd Cymru, i'r cyfarfod gan y Maer, er mwyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr ailstrwythuro a fu ac am ddyfodol plismona cymunedol.

Diolchodd yr Arolygydd Verburg i'r aelodau am y gwahoddiad i fod yn bresennol a dechreuodd gyda chyflwyniad personol byr. Yna fe fynegodd beth fyddai effaith yr ailstrwythuro diweddar a orfodwyd ar yr heddlu gan yr angen i arbed £24.6m dros 4 blynedd. Ym mis Mai fe grewyd both Bae Colwyn sy'n cynnwys ardal eang o Abergele, Llandudno, Llanrwst a Betws y Coed. Canlyniad hyn oedd i lawer mwy o swyddogion cael eu lleoli ym Mae Colwyn gan godi gweledd yr heddlu hefyd. Mae hanner y Tîm Archwilio Dosbarth (8 swyddog) wedi'i leoli ym Mae Colwyn hefyd. Ni effeithiwyd yn fawr ar y timau plismona cymunedol, er y collwyd un CBM ac fe newidiwyd swyddogaeth CBMau gyda'r canlyniad iddynt orfod ymdrin â digwyddiadau y tu allan yw hardaloedd. Mae PCSOau yn parhau i dderbyn cyllid grant o 75% a bydd tua 100 o swyddogion newydd yn cael eu recriwtio ar draws yr ardal a disgwylir tua 5 yn rhan Bae Colwyn o'r Dosbarth. Fel arfer bydd y swyddogion hyn yn aros o fewn eu wardiau., Fodd bynnag, mae strategaeth hirdymor cyllido PCSOau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Rhoddodd yr Arolygydd. Verburg wybodaeth am yr amserau ymateb ac ystadegau am droseddau gan gymharu cyfnodau'r 12 mis presennol gyda'r 12 mis blaenorol. N i fu newid yn yr ymateb i alwadau 999, ond mae trafferthion parhaus gydag amserau ymateb i alwadau 101 ac mae'r Ystafell Rheoli yn archwilio hyn. Cafwyd gostyngiad yn y ffigyrau troseddu ym mhob ward yn ystod y cyfnod 12 mis presennol fel a ganlyn: Llandrillo yn Rhos -4%, Rhiw -21%, Glyn -26%, Eirias -15%, Hen Golwyn -14%. Mae'r parth gwasgaru ym Mae Colwyn yn gweithio'n dda i wrthsefyll ymddygiad gwrth cymdeithasol a chafwyd 6 arestiad (4 wedi'u carcharu) yn dilyn cyfres o fyrgleriaethau yn Llandrillo yn Rhos.

Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd yr Heddlu yn gallu parhau i ryddhau PCSOau i wneud gwaith rheoli trafnidiaeth ar gyfer ffyrdd sydd wedi cau neu achlysuron. Os disgwylir digwyddiadau mewn perthynas ag achlysuron penodol, yna fydd yr Heddlu yn dal i fod ar gael ond efallai caiff y Cyngor ei chynghori i gyflogi cwmni Rheoli Trafnidiaeth i gynorthwyo.

I derfynu cyfeiriodd yr Arolygydd Verburg at yr Archwiliad o Ystadau sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd. Disgwylir bydd yr heddlu (yn cynnwys y tîm Ymateb a'r tîm plismona Cymunedol) yn adleoli o'r adeilad yn Rhiw Road, efallai i'r Pencadlys ym Mae Colwyn. Bydd mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn y Flwyddyn Newydd.

Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn byr o holi ag ateb yn cynnwys cwestiynau / sylwadau ar: gorfodi rheolau ar barcio anghyfreithlon ar gyffordd brysur yn Llandrillo yn Rhos (manylion i'w trosglwyddo i'r CBM); pryderon am yr effaith o symud y both ar weledd yr heddlu yng nghanol y dref; yr angen i gydweithredu gyda ChBS Conwy ar gyfer rheoli trafnidiaeth ar adegau o orymdeithiau ac amcangyfrifon o'r costau i drefnwyr digwyddiadau; cais i PCSOau cael hawliau Cwnstabliaid Arbennig i'w galluogi i helpu gyda rheoli trafnidiaeth.

Diolchwyd i'r Arolygydd Verburg am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

347/11 COFNODION:

Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 17^{eg} Hydref 2011 a'i llofnodi i fod yn adroddiad cywir.

348/11 COFNODION Y PWYLLGORAU A'R IS-BWYLLGORAU:

Cyflwynodd y Clerc copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol er gwybodaeth:

a. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 1.11.11
b. Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 9.11.11
c. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 22.11.11

Penderfynwyd derbyn Cofnodion y Pwyllgorau.

349/11 MATERION YN CODI O'R COFNODION HYN :

a. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio 1.11

Penderfynwyd nodi penderfyniadau'r Pwyllgor fel y nodi'r yn y Cofnodion.

b. Pwyllgor Polisi a Chyllid 9.11

(i) ***Penderfynwyd nodi penderfyniadau'r Pwyllgor fel y nodi'r yn Cofnodion.***

(ii) ***Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgor fel y nodi'r yng Nghofnodion 310/11, 313/11 a 317/11.***

(iii) Cofnod 319(b): Defnyddio Neuadd y Dref ar Benwythnosau

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am gais gan Gymdeithas Gorawl Colwyn i gael defnyddio Neuadd y Dref ar ddau Sadwrn pob blwyddyn. Fe nodwyd na dderbyniwyd ceisiadau rheolaidd o'r fath am benwythnosau oherwydd y costau ychwanegol angenrheidiol i wresogi, goleuo a glanhau. Fodd bynnag, efallai y byddai'n bosibl i dderbyn y cais arbennig hwn am gost ychwanegol finimal, ar yr amod y derbynnir digon o rybudd a bod y glanhawr yn gallu newid ei horiau gwaith i ddod i mewn ar y penwythnos.

Cafwyd trafodaeth ar bolisi'r Cyngor o gynnig cyfleusterau am ddim i ddibenion cymunedol a'r costau ychwanegol a fyddai'n codi o'r defnydd ar benwythnos. Fe awgrymwyd y dylid ychwanegu cymal i'r Amodau Defnyddio i ddweud gall y Cyngor codi tâl ychwanegol ar gyfer y costau o wresogi / goleuo / glanhau ar benwythnosau. Fe nodwyd bod yr amodau eisoes yn mynnu bod yr ystafelloedd yn cael eu tacluso a'r crochenwaith / cytleri yn cael eu golchi a bod y drysau ar gau ar bob adeg,

Penderfynwyd derbyn cais dros dro Cymdeithas Gorawl Colwyn i ddefnyddio Neuadd y Dref ar ddau Sadwrn pob blwyddyn, yn amodol ar yr amodau presennol o ddefnyddio ac i bob cais a dderbynnir yn y dyfodol i ddefnyddio'r adeilad ar benwythnos cael ei ystyried ar ei haeddiant ei hun.

c. **Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio 22.11**
Penderfynwyd nodi penderfyniadau'r Pwyllgor fel y nodi'r yn y Cofnodion.

350/11 CLWB PÊL-DROED BAE COLWYN:

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gefnogaeth ariannol barhaus trwy'r bwrdd hysbysebu ar y maes am gost o £300.

Penderfynwyd cynnig nawddogaeth barhaus trwy'r bwrdd hysbysebu ar y maes am gost o £300.

351/11 GOHEBIAETH BRYS YCHWANEGOL: Gyda chaniatâd y Cadeirydd, cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth brys ychwanegol canlynol i'w ystyried:

a) RWE NPower Renewables:
Cyflwynwyd llythyr o wahoddiad i ddyddiau agored ac fe nodwyd bod copïau o'r daflen newyddion diweddaraf ar gael gan y Clerc ar gais.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.30pm ……Cadeirydd